# Cofnodion cryno - Bwrdd Taliadau

Lleoliad:

**Ystafell Gynadledda A - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Iau, 22 Tachwedd 2018

Amser: 09.19 - 13.51

# WRB(19)

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Bwrdd: | Y Gwir Anrhydeddus y Fonesig Dawn Primarolo (Cadeirydd)<br>Ronnie Alexander<br>Trevor Reaney<br>Michael Redhouse<br>Y Fonesig Jane Roberts |
| Swyddogion: | Matthew Richards, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol<br>John Chick, Pennaeth Cymorth Busnes i'r Aelodau<br>Rebecca Hardwicke, Partner Busnes Adnoddau Dynol yr Aelodau<br>Martin Jennings, Arweinydd y Tîm Ymchwil<br>Craig Stephenson, Cyfarwyddwr Ymgysylltu |
| Staff y Pwyllgor: | Lleu Williams, Clerc<br>Sian Giddins, Dirprwy Glerc |

## 1 Cyflwyniad y Cadeirydd

1.1. Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r Bwrdd i'r cyfarfod.

1.2. Dymunodd y Bwrdd longyfarchiadau i John Chick ar ei benodiad diweddar yn y Swyddfa Eiddo Deallusol. Ar ran y Bwrdd, diolchodd y Cadeirydd i John am ei waith, ei arweiniad a'i gefnogaeth i'r Bwrdd.

1.3. Dymunodd y Bwrdd longyfarchiadau i Rebecca Hardwicke ar ei phenodiad i'r rôl y mae John yn ei gadael.

1.4. Cytunodd y Bwrdd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Hydref 2018.

1.5. Datganodd y Cadeirydd fuddiant mewn perthynas ag eitem dau, gan ei bod yn Gyfarwyddwr anweithredol yng nghwmni Thompson's Solicitors.

**Cam gweithredu:**

Yr ysgrifenyddiaeth i gyhoeddi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Hydref 2018.

## 2 Eitem i'w thrafod: Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad: Ystyriaeth gyntaf o ran un

2.1. Trafododd y Bwrdd y darpariaethau ym mhenodau'r Penderfyniad sy'n canolbwyntio ar wariant ar lety preswyl, costau teithio a chostau swyddfa'r Aelodau, sy'n dod o dan ran un o'i adolygiad.

2.2. Cytunodd y Bwrdd i ddychwelyd at y materion a godwyd yn ei gyfarfod nesaf.

## 3 Eitem i'w phenderfynu: Cynllun Pensiwn yr Aelodau

3.1. Trafododd y Bwrdd y broses ar gyfer prisio'r terfyn uchaf ar gostau Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad.

3.2. Cytunodd y Bwrdd i fonitro'r sefyllfa.

**Cam gweithredu:**

Yr ysgrifenyddiaeth i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y broses o brisio'r terfyn uchaf ar gostau yn y flwyddyn newydd.

## 4 Papur i’w nodi

4.1. Nododd y Bwrdd yr ohebiaeth a gafwyd gan y Llywydd a goblygiadau'r Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) i'r Bwrdd.

**Cam gweithredu:**

Y Bwrdd i ymateb i'r Llywydd.